**Cyngor Partneriaeth Cymru – 10 Gorffennaf 2023**

drwy Microsoft Teams.

## Sylwadau agoriadol y Cadeirydd

## Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. Nododd y Gweinidog fod cofnodion y cyfarfod blaenorol (2 Mawrth 2022) wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu welliannau, ond ni chafwyd rhai.

3. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol naill ai'n gyflawn neu ar y gweill.

4. Tynnodd y Gweinidog sylw'r aelodau at y papur i'w nodi gan y Panel Strategaeth Llywodraeth Leol ar ei waith tuag at Sero Net, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Yn benodol, tynnodd y Gweinidog sylw at y gwaith a oedd yn digwydd o dan bob un o'r pedair thema a nodir yn y papur a'r atodiad: trafnidiaeth, adeiladu, defnydd tir a chaffael.

5. Nododd y Gweinidog a'r aelodau y cynnydd a'r argymhellion a nodir yn y papur.

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 1:** Gwahodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Tachwedd i gael trafodaeth ehangach ar ein gwaith ar y cyd tuag at Sero Net yng Nghymru. |

## Eitem 1 ar yr Agenda: Trafodaeth ar strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg

6. Cyflwynodd y Gweinidog yr eitem ar strategaeth Cymraeg 2050. Tynnodd y Gweinidog sylw at daith Cymru tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg a sut mae'r nod o ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050 wedi dal dychymyg pobl Cymru ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Strategaeth, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*, yn 2017.

7. Rhoddodd y Gweinidog groeso i Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AS, i'r cyfarfod heddiw i siarad â'r aelodau am y strategaeth a sut y gallwn ni i gyd gyfrannu at y nodau cyffredinol a amlinellir ynddi.

***[Cafwyd problemau technegol gyda'r cyfieithu ar y pryd trwy Microsoft Teams trwy gydol y cyfarfod a gafodd effaith sylweddol ar ddiweddariad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fel rhan o eitem un ar yr agenda. O ganlyniad, mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o'r pwyntiau a wnaed gan Weinidog y Gymraeg ac***

***Addysg. Dosbarthwyd y nodyn hwn i aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru yn dilyn y cyfarfod.]***

8. Dechreuodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ei ddiweddariad drwy gadarnhau uchelgais ac angerdd Llywodraeth Cymru dros y Gymraeg a'i chynlluniau ar gyfer yr iaith. Mae gweithredu polisi iaith - sicrhau bod iaith yn cael cyfle i oroesi a ffynnu - yn ymdrech hirdymor sy'n gofyn am weithredu cadarn a chyson mewn ystod eang o feysydd. Mae angen cefnogaeth a chyfranogiad gweithredol yr holl randdeiliaid ar Lywodraeth Cymru. Teimlai Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y gallwn, gyda'n gilydd, ysgogi newid ystyrlon i helpu i gyflawni ein nodau a bod aelodau'r Cyngor Partneriaeth yn rhanddeiliaid allweddol yn yr ymdrech hon.

9. Ddiwedd y llynedd, derbyniodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau Cyfrifiad 2021 a oedd yn dangos bod llai o blant rhwng tair a 15 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2021 nag yn 2011. Ond yn ystod cyfnod diwethaf y Cyfrifiad roedd Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y plant mewn addysg Gymraeg, gyda dros 11,000 yn fwy o blant yn 2022 nag yn 2011. Roedd cynnydd hefyd wedi bod yng nghanran y rhai 16–19 oed, a phobl 20-44 oed sy'n gallu siarad Cymraeg, sef rhieni’r genhedlaeth nesaf o siaradwyr Cymraeg.

10. Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg o’r farn nad oedd amheuaeth bod addysg yn allweddol i dyfu'r Gymraeg, ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth yr aelodau i sicrhau y gallai pob plentyn yng Nghymru ddechrau ar eu taith tuag at ddwyieithrwydd. Roedd hefyd yn falch o gadarnhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru bellach Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a bod Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Addysg Gymraeg yn ystod tymor y Senedd hon, a'i ddiben yw cryfhau a chynyddu darpariaeth addysg Gymraeg ledled Cymru i gyrraedd targedau Cymraeg 2050. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i wella canlyniadau ieithyddol i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fel y byddai pob disgybl yn gadael yr ysgol yn hyderus ac yn awyddus i ddefnyddio eu sgiliau iaith yn y gymuned, mewn gweithleoedd ac mewn bywyd bob dydd.

11. Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg o’r farn bod y Gymraeg yn unigryw gan mai hon oedd un o'r ychydig ieithoedd lleiafrifol a oedd yn dal i fod yn iaith gymunedol fyw ac roedd yn awyddus i sicrhau ei bod yn parhau i fod felly.

12. Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn awyddus i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i'r Gymraeg gael ei siarad a’i defnyddio gan bobl ym mhob agwedd ar eu bywydau. Teimlai fod gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn werthfawr o ran hynny a nododd fod y Comisiwn eisoes wedi edrych yn fanwl ar feysydd polisi fel tai, datblygu economaidd, cynllunio gwlad a thref, addysg a datblygu cymunedol - pob un ohonynt yn cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd ieithyddol cymunedau Cymraeg. Cafodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 gyda'r nod o wneud argymhellion i gryfhau cymunedau Cymraeg. Bydd argymhellion terfynol y Comisiwn yn cael eu cyhoeddi ar ffurf adroddiad erbyn mis Awst 2024. Cyhoeddwyd ei Bapur Sefyllfa (adroddiad interim) ym mis Mehefin 2023.

13. Dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod y cyfraniad mae digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol ac wrth gwrs Eisteddfod yr Urdd yn ei wneud i agenda celfyddydau a diwylliant Cymru yn anfesuradwy. Gall digwyddiadau o'r fath gael effaith barhaol ar ein cymunedau. Mae ymweld â'r Eisteddfod yn ffordd wych o siarad Cymraeg ac i glywed yr iaith yn cael ei siarad yn eang, a heb gefnogaeth gan y cymunedau ni fyddai'n bosibl cynnal digwyddiadau mor llwyddiannus a bywiog y mae eu gwaddol yn parhau ymhell tu hwnt i gyfnod yr ŵyl.

14. Roedd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg hefyd yn dymuno mynegi ei ddiolch i'r aelodau am eu cefnogaeth a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda nhw i sicrhau y gallai Cymru symud yn hyderus tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

15. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, hysbysodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Academi Cymru i ddatblygu'r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog, ac roedd yn annog pawb i fanteisio arni. Yn wir, roedd yn falch o glywed bod cynifer eisoes wedi manteisio ar y cyfle i fynychu'r cwrs ac roedd wrth ei fodd gyda nifer yr ymgeiswyr. Ymrwymodd i barhau i ddatblygu'r rhaglen i sicrhau ei bod yn mynd o nerth i nerth ac roedd yn gobeithio y byddai cyfleoedd pellach i aelodau a'u staff wneud cais. Anogodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yr Aelodau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i rannu eu harbenigedd a helpu i feithrin partneriaethau cryf gyda nodau a rennir.

16. Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:
    - Roedd y Canon Aled Edwards (Parciau Cenedlaethol) yn cefnogi sylwadau'r Gweinidog yn gyffredinol.
    - Cefnogodd y Cynghorydd Darren Price (Arweinydd Cyngor Sir Gâr) sylwadau'r Gweinidog a dywedodd ei bod yn bwysig parhau i drafod, gan gadarnhau eu bod, yng Nghyngor Sir Gâr, wedi ymgysylltu â Choleg Sir Gâr yn ddiweddar ar y mater.
    - Cadarnhaodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd Cyngor Gwynedd) fod Cyngor Gwynedd hefyd yn cynnig cefnogaeth eang i sylwadau'r Gweinidog.
    - Teimlai'r Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd Cyngor Caerdydd) fod angen i'r Eisteddfod ymweld â phob ardal awdurdod lleol yn rheolaidd gan y byddai'n ymddangos bod mwy o bwyslais ar yr ardaloedd traddodiadol Cymraeg i'w chynnal. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'r eisteddfod yn cael ei chynnal yn Rhondda Cynon Taf a Wrecsam yn 2024 a 2025.

17. Yn dilyn diweddariad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr aelodau y byddai'n fuddiol parhau â'r sgwrs mewn cyfarfod o Gyngor Partneriaeth Cymru yn y dyfodol.

## Eitem 2 ar yr Agenda: Dyfodol ein system Iechyd a Gofal

18. Estynnodd y Gweinidog groeso i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan AS a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS, a oedd ill dau wedi mynychu'r cyfarfod i roi trosolwg o'r heriau sy'n wynebu system Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru.

19. Diolchodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r aelodau am y cyfle i fynychu'r Cyngor Partneriaeth ac i roi diweddariad iddynt ar:
    - rôl llywodraeth leol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng nghyd-destun pen-blwydd y GIG yn 75 oed;
    - sefydlu Llais; a
    - gwaith *Ymhellach, yn Gyflymach*.

20. Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod pen-blwydd y GIG yn 75 oed nid yn unig yn gyfle i ddathlu ein system iechyd ond hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r heriau allweddol sy'n ei hwynebu. Nododd fod y system iechyd ar hyn o bryd yn derbyn 2 filiwn o gysylltiadau y mis yn erbyn poblogaeth o 3.1 miliwn.

21. Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y cysylltiadau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol a'i bod yn awyddus i ddatblygu gofal mwy ataliol yn y gymuned lle mae pobl ond yn mynd i'r ysbyty pan fydd hynny'n gwbl hanfodol. Teimlai'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai edrych ar fesurau eraill i hybu iechyd da yn fuddiol i hyn hefyd. Er enghraifft, roedd bylchau mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig yn dal i fod yn sylweddol ac roedd angen sefydlu amgylchedd sy'n sicrhau y gall y cyhoedd ymateb i system sy'n ffafriol i iechyd da. Roedd yn hanfodol gweithio ar draws holl wasanaethau iechyd y cyhoedd i hyrwyddo iechyd poblogaethau yn effeithiol.

22. Rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiweddariad i'r aelodau ar 'Llais' (enw gweithredol Corff Llais y Dinesydd) a oedd yn gorff statudol annibynnol newydd a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais i'r cyhoedd yng Nghymru wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Ymhlith nodau'r corff newydd mae:
    - cryfhau llais y dinesydd yng Nghymru dros iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau bod gan ddinasyddion fecanwaith effeithiol ar gyfer sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed; a
    - defnyddio profiad defnyddwyr gwasanaethau i ysgogi gwelliant.

23. Nod Llais yw Cymru iachach lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt, gan fod yn llais cynhwysol, annibynnol ac arweiniol ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar bobl.

24. Mae sefydlu Llais wedi bod yn ymrwymiad a buddsoddiad sylweddol. Mae Llais wedi amlinellu cynllun 100 diwrnod sydd eisoes wedi gweld nifer o lwyddiannau hyd yma, gan gynnwys:
    - lansio ymgynghoriad cyhoeddus cenedlaethol ar ei weledigaeth, ei genhadaeth a'i flaenoriaethau strategol arfaethedig, gan geisio mewnbwn gan leisiau a chymunedau amrywiol Cymru.
    - gweithio gyda'r cyhoedd i greu ffyrdd syml a hygyrch i bobl Cymru gysylltu â Llais a derbyn ei wasanaethau.
    - sefydlu presenoldeb rhanbarthol cryf yn yr ardaloedd a gwmpesir gan y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru, sy'n dwyn ynghyd gyrff y GIG, awdurdodau lleol, a'r trydydd sector i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal ddaearyddol.
    - gweithio gydag aelodau Llais a'r cyhoedd i ddatblygu gwerthoedd sefydliadol a sefydlu diwylliant iach, cynhwysol. Bydd yn datblygu a chyhoeddi polisi amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant i gefnogi tegwch yn Llais ac ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.
    - gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach ddulliau digidol o weithio sy'n cefnogi eu gweithgareddau.
    - lansio ymgyrch farchnata i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o rôl annibynnol Llais wrth ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
    - ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru i glywed gan bobl am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynigion ar gyfer newidiadau i ddarparu gwasanaethau, a rhannu'r hyn y maent yn ei glywed gyda'r GIG, awdurdodau lleol, a llunwyr penderfyniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill.
    - cefnogi pobl i fynegi eu pryderon am iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy wasanaeth eiriolaeth cwynion annibynnol

25. I gloi ei diweddariad, tynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sylw’r aelodau at y ffaith y byddai cryfhau capasiti gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned yn flaenoriaeth dros y misoedd nesaf a'i bod yn ddiolchgar i awdurdodau lleol am eu gwaith gyda'r GIG y gaeaf diwethaf i ddarparu gwelyau cam i lawr cymunedol ychwanegol. Teimlai fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth go iawn ac roedd am adeiladu ar y dull partneriaeth hwnnw trwy *Ymhellach, yn Gyflymach* a chanolbwyntio cyn y gaeaf nesaf ar ofal cymunedol i bobl hŷn a'r rhai sy'n byw gyda bregusrwydd.

26. Lansiwyd *Ymhellach, yn Gyflymach* ar 6 Mehefin gyda chyhoeddi dogfen Datganiad o Fwriad sy'n nodi'r meysydd gwaith eang. Y fenter hon fyddai'r cyfrwng i ddod â'r gwaith cymunedol hwn ynghyd a chyflymu'r gwaith sy'n canolbwyntio ar y gymuned ar draws y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mynegodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei dymuniad i weithio gydag awdurdodau lleol, yn ogystal â'r GIG i ddatblygu model gwasanaeth a gweithlu yn seiliedig ar yr arferion gorau presennol ar draws gwahanol ffrydiau gwaith. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bwriad i gychwyn y Pwyllgor Gweithredu Gofal dros yr haf er mwyn gweithredu camau *Ymhellach, yn Gyflymach* cyn ac yn ystod y gaeaf.

27. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd y Cynghorydd Jason McLellan (Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych) yn falch o glywed bod Llais yn wasanaeth eirioli ond holodd ynghylch hyd a lled y gwasanaethau a ddarparwyd ganddo.
- Cyfeiriodd Jan Williams (Iechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn bresennol ar ran Maria Battle) at nifer o adnoddau a deunyddiau gwerthfawr sydd eisoes mewn bodolaeth a fyddai'n cefnogi bwriad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i hyrwyddo cymunedau iachach.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Steve Hunt (Arweinydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot) at ddatganiad bwriad drafft gwasanaethau cymdeithasol gan CLlLC a gwaith rhagorol a wnaed ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu hynny. Roedd hefyd o’r farn ei bod yn bwysig cydnabod maint yr heriau y mae'r gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol yn eu hwynebu a'r gwaith sy'n cael ei wneud i'w goresgyn.
- Nododd y Cynghorydd Alun Williams (Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion) bryderon ynghylch y byrddau iechyd lleol ledled Cymru. Roedd o’r farn bod Cymru ar fin colli mintai o Feddygon Teulu ac roeddent yn wynebu cwymp system gyfan nad oedd yn ymddangos yn flaenoriaeth i fyrddau iechyd lleol.
- Cydnabu'r Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd Cyngor Caerdydd) y pwysau o ran adnoddau ac arian roedd y gwasanaeth iechyd a'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu a chroesawodd ffocws y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weinidog Cymru ar atal. Yn y tymor hwy, anogodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i edrych ar ble mae'r swyddogaeth iechyd y cyhoedd yn eistedd gan nodi bod CLlLC wedi ymgyrchu ers tro i swyddogaethau iechyd y cyhoedd fod gydag awdurdodau lleol.
- Holodd y Cynghorydd Sean Morgan (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) a ellid ystyried trethu cynnyrch siwgr uchel a datblygu ymgyrch iechyd y cyhoedd i fynd ochr yn ochr â hynny.
- Roedd y Cynghorydd Huw David (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a llefarydd CLlLC dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn dymuno adfyfyrio ar y llwyddiannau y gaeaf diwethaf pan oedd y gwasanaeth iechyd dan bwysau aruthrol, ond drwy gydweithio â llywodraeth leol llwyddwyd i osgoi argyfwng posib. Pwysleisiodd bwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod digon o gapasiti ar waith ag a oedd yn bosibl.
- Mynegodd y Cynghorydd Mark Pritchard (Arweinydd Wrecsam) bryder ynghylch Gofal Sylfaenol a'r strategaeth hirdymor ar gyfer Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

28. Diolchodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i arweinwyr awdurdodau lleol am eu gwaith gyda hi a Llywodraeth Cymru yn enwedig dros y gaeaf diwethaf. Cydnabu fod ymrwymiad mawr i symud yn agosach at wasanaethau cymunedol ac ataliol ac roedd o’r farn y byddai un o'i meysydd cyfrifoldeb Gweinidogol mewn perthynas â'r blynyddoedd cynnar a helpu teuluoedd yn gynnar, yn allweddol i hyn.

29. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd i’r aelodau ei bod yn ymwybodol o'r materion canlynol oedd yn effeithio ar ofal cymdeithasol

a bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n galed gyda phartneriaid i'w datrys:

- Symud tuag at safoni cyflogau gwaith cymdeithasol. Hefyd yn awyddus i ddatblygu dull cenedlaethol o sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflogau iechyd a gofal cymdeithasol – blociau adeiladu yn eu lle.
- Oedi wrth drosglwyddo gofal - yn ymwybodol mai dim ond rhan o'r mater yw pecynnau gofal cymdeithasol, bod gwell dealltwriaeth bellach o ble mae'r problemau yn bodoli ac mae hi'n ddiolchgar am yr ymdrechion mawr sy'n cael eu gwneud gan bawb sy'n ymwneud â gwella'r sefyllfa.

## Eitem 3 ar yr Agenda: Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Lleihau'r baich gweinyddol ar lywodraeth leol

30. Pwrpas yr eitem hon oedd trafod ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.

31. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi trafod y mater hwn gydag arweinwyr awdurdodau lleol ac aelodau etholedig yng nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol CLlLC ddiwedd Mehefin 2023 ond teimlai y byddai eitem fer yn ddefnyddiol yn y Cyngor Partneriaeth gan y byddai'r broses o leihau'r baich gweinyddol o fudd ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ehangach, ac y byddai aelodau'n allweddol i rannu gwybodaeth ac arferion da.

32. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei gallu i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol i'w galluogi i ganolbwyntio eu hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â swyddogion awdurdodau lleol ar y beichiau mwyaf ar eu hamser a'u hadnoddau, a daeth rheoli a gweinyddu grantiau i'r brig. Nodwyd beichiau eraill mewn perthynas â cheisiadau am ddata a gwybodaeth hefyd a bydd hynny yn rhan o'r gwaith hwn.

33. Mewn ymateb i hyn, cadarnhaodd y Gweinidog gytundeb Cabinet Llywodraeth Cymru i ddilyn rhaglen waith gyda thri amcan:
    - Talu llai o grantiau refeniw i awdurdodau lleol drwy ddad-ddyrannu cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw neu gyfuno grantiau lle bo hynny'n bosibl er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd lleol
    - Cael dulliau mwy cymesur o weinyddu’r grantiau sy'n weddill; a
    - Sicrhau na fydd unrhyw gynnydd mewn beichiau gweinyddol eraill neu geisiadau am wybodaeth o ganlyniad.

34. Byddai'r rhaglen waith yn cael ei goruchwylio gan Weinidogion ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dechrau'r broses o adolygu'r holl grantiau refeniw presennol a dalwyd i awdurdodau lleol. Bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn cael eu cynnal i sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau niweidiol anfwriadol i ddefnyddwyr gwasanaethau o ganlyniad i'r cynigion. Bydd timau cyflawni awdurdodau lleol, Trysoryddion a thimau llywodraethu yn rhan o’r broses drwyddi draw, a bydd yn bwysig cynnwys rhanddeiliaid eraill fel y trydydd sector yn y broses lle bo hynny'n berthnasol.

35. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai Is-Grŵp Cyllid y Cyngor Partneriaeth yn darparu fforwm ar y cyd ar gyfer trafod a chadarnhau cynigion Gweinidogol. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd ei bwriad i'r Cyngor Partneriaeth fod yn rhan o'r gwaith o ystyried goblygiadau ehangach y ffyrdd newydd o weithio a datblygu egwyddorion ar gyfer trefniadau cyllido yn y dyfodol a fyddai, yn y pen draw, yn arwain at fwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol wrth gyflawni amcanion polisi. Roedd y Gweinidog yn awyddus i drosglwyddo'r gwaith hwn i bartneriaid ehangach fel y trydydd sector.

36. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r aelodau am Gytundeb Verity House Llywodraeth yr Alban sy'n canolbwyntio ar nifer fach o flaenoriaethau a rennir, a'i nod yw cyfyngu'r defnydd o grantiau i roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol allu gwneud mwy o benderfyniadau yn lleol ynghylch sut y defnyddiwyd cyllid.

37. Cytunodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth ym mis Tachwedd.

## Eitem 4 ar yr Agenda: Cadw trefniadau partneriaeth ranbarthol dan adolygiad

38. Rhoddodd y Gweinidog groeso i Cefin Campbell AS, Aelod Dynodedig Plaid Cymru ar gyfer ymrwymiad y Cytundeb Cydweithredu i '*gadw gwaith partneriaeth rhanbarthol dan adolygiad*'.

39. Nododd y Gweinidog fod y gwaith ar yr ymrwymiad wedi'i wneud mewn ffordd gymesur a phragmatig, gyda'r nod o adeiladu ar waith yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol 2019-20, a chydnabod y gwaith sydd ar y gweill i alinio partneriaethau yn y rhanbarthau.

40. Nododd y Gweinidog ei bod hi a'r Aelod Dynodedig wedi gwerthfawrogi'r ffordd adeiladol yr ymatebodd cadeiryddion partneriaeth yn ystod yr ymarfer ymgysylltu, ac roedd wedi croesawu'r cyfle i ofyn am farn y Cyngor Partneriaeth yn y cyfarfod diwethaf.

41. Nododd y Gweinidog rai ystyriaethau yn sgil cynnal yr adolygiad. Nododd y Gweinidog ei bod wedi clywed sut mae'r berthynas a adeiladwyd drwy strwythurau partneriaeth wedi bod o werth wrth ymateb i'r heriau mawr a wynebir dros y blynyddoedd diwethaf, gydag un cadeirydd yn disgrifio yn ystod yr ymarfer ymgysylltu sut y rhoddodd eu BGC '*fframwaith ar gyfer gwytnwch*' yn ystod y pandemig.

42. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod wedi clywed bod cynnydd wedi bod o ran alinio gweithio mewn partneriaeth, bod mwy o waith i'w wneud, ond bod rhanbarthau'n gweithio i nodi'r dull cywir, gyda rhai yn fwy datblygedig nag eraill. Mae ymdeimlad cryf o berchnogaeth leol o ran yr ystyriaethau hyn, yn hytrach na galwadau am ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru.

43. Nododd y Gweinidog y dylai partneriaethau gydweithio'n effeithiol ac yn effeithlon mewn model sy'n iawn ar gyfer eu hardal a'u blaenoriaethau, gan ychwanegu nad oes un model, a bod gan ranbarthau'r hyblygrwydd i ddod o hyd i'r dull cywir.

44. Dywedodd y Gweinidog y dylai hyn gael ei ategu gan fframwaith cyson ar gyfer gweithio mewn partneriaeth - disgwyliadau y bydd, er enghraifft, cylch gorchwyl gydag eglurder diben, gyda golwg glir ar bartneriaethau strategol un pwrpas ac amlbwrpas eraill lle mae diddordebau sy’n gorgyffwrdd.

45. Cyflwynodd y Gweinidog yr adroddiad drafft a ddosbarthwyd i’r aelodau, gan nodi ei fod yn cydnabod bod cynnydd wedi bod, ac yn parhau i gael ei wneud o ran alinio partneriaethau, ond mae'n bwysig ystyried tirwedd y bartneriaeth yn rheolaidd er mwyn manteisio i’r eithaf ar ei heffeithiolrwydd a'i heffeithlonrwydd. Dywedodd y Gweinidog fod y Cyngor Partneriaeth mewn sefyllfa dda i arwain ar hyn, fel yr adlewyrchir yn yr argymhellion drafft. Nododd y Gweinidog fod yr argymhellion wedi'u trefnu o amgylch 4 thema allweddol:
- **Thema 1:** Cyfrifoldeb ar y cyd dros effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd tirwedd y bartneriaeth
- **Thema 2:** Arweinyddiaeth leol ar gyfer effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithio mewn partneriaeth
- **Thema 3:** Fframwaith cyson ar gyfer gweithio mewn partneriaeth
- **Thema 4:** Rhannu arferion a’r hyn a ddysgwyd

46. Cyfeiriodd y Gweinidog at yr argymhelliad ar gyfer rhannu arferion yn genedlaethol. Diolchodd i'r Cynghorydd Huw Thomas am gynnig rhannu profiad Caerdydd o adolygu blaenoriaethau partneriaeth a threfniadau cyflawni, ac roedd hi'n gobeithio eu cynnwys ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth. Gwahoddodd aelodau eraill a hoffai rannu fel hyn i gysylltu â'r ysgrifenyddiaeth. Nododd y Gweinidog hefyd yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei gynnig mewn perthynas â'r argymhelliad hwn, gan nodi bod cyfleoedd rheolaidd i ymgysylltu fel y cyfarfod ddwywaith y flwyddyn sydd ganddi gyda chadeiryddion BGC a chyfarfodydd rhwydwaith BGC. Ychwanegodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru'n gobeithio cyflwyno digwyddiad, ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, lle gellir rhoi llwyfan i arferion.

47. Gwahoddodd y Gweinidog Cefin Campbell AS i gynnig rhai myfyrdodau ar y pwynt hwn. Nododd Cefin Campbell AS ei fod yn ddiolchgar iawn am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymarfer ymgysylltu â chadeiryddion partneriaeth ledled Cymru. Nododd ei fod wedi clywed tystiolaeth bod partneriaethau'n ffordd bwysig ac effeithiol o ddarparu cymorth a gwasanaethau cyffredinol. Ychwanegodd mai'r her yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac amser staff, ac osgoi dyblygu, gan rannu arferion gorau a chydweithio.

48. Nododd yr Aelod Dynodedig, o'i brofiad ei hun ac o'r dystiolaeth o'r ymarferiad ymgysylltu, bod cael y lefel briodol o swyddogion sy’n gwneud penderfyniadau yn bresennol yn neges gyson, gyda'r pwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau fel y gall partneriaethau symud yn gyflym ar faterion.

49. Yna gofynnodd yr Aelod Dynodedig am farn y Cyngor Partneriaeth ynghylch sut mae partneriaethau'n ymgysylltu â Chyd-bwyllgorau Corfforedig sydd bellach wedi'u sefydlu. Nododd nad oedd ystyried y cyd-bwyllgorau wedi bod yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu hwn, ond erbyn hyn maent wedi'u sefydlu, a byddai ganddo

ddiddordeb mewn clywed barn gynnar ar sut mae'r Cyngor Partneriaeth yn gweld y dirwedd yn symud wrth i'r Cyd-bwyllgorau ymwreiddio. Wrth gloi, nododd yr Aelod Dynodedig fod y gwaith ar yr ymrwymiad hwn wedi bod yn ymarfer dysgu pwysig iawn iddo ef a Llywodraeth Cymru.

50. Amlygodd y Gweinidog baragraff dau yn y papur trafod a'r cwestiynau i lywio'r drafodaeth ym mharagraff 13. Nododd fod cyfle i gymryd mwy o sylwadau y tu allan i'r cyfarfod. Diolchodd y Gweinidog i Cefin Campbell AS am ei waith ar yr ymrwymiad hwn. Yna gwahoddodd sylwadau yn unol â'r cwestiynau yn y papur trafod.

51. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol:
- Cyfeiriodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Alun Michael, at baragraff 37 yn yr adroddiad drafft. Nododd ei fod yn teimlo ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir a'i fod yn cytuno'n benodol â'r flaenoriaeth ar gyfer 'golwg glir', o ran Llywodraeth Cymru ac mewn trefniadau rhanbarthol. Nododd y Comisiynydd Michael na ddylid tanbrisio'r dasg o sefydlu'r 'olwg glir' ym mhobman, fel sy'n briodol i drefniadau lleol.
- Dywedodd y Cynghorydd Mike Theodoulou (Cadeirydd, Un Llais Cymru) fod hwn yn adroddiad rhagorol, ac y gellid gweld cynnydd. Ychwanegodd nad yw cynghorau tref a chymuned yn cael eu cynnwys yn y partneriaethau oedd wedi eu hystyried, ond fel haen llywodraeth sydd agosaf at yr etholwyr fe allent gyfrannu'n effeithiol at y partneriaethau hyn.
- Canmolodd Jan Williams (Iechyd Cyhoeddus Cymru) y rhai oedd yn rhan o'r gwaith hwn a nododd fod yr adroddiad yn gynhwysfawr. Nododd y byddai'n ymgynghori â chydweithwyr ac yn darparu ymateb ar y cyd ar yr adroddiad drafft. Ychwanegodd Jan Williams fod yr argymhelliad i ddatblygu egwyddorion cenedlaethol ar gyfer alinio gweithio mewn partneriaeth i'w groesawu. Nododd y byddai systemau data sy'n cael eu rhannu a'u perchenogi ar y cyd yn cefnogi partneriaethau effeithiol ac yn cyfeirio at ddangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru Gyfan. Dywedodd Jan Williams hefyd fod partneriaethau'n rhan sylfaenol o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.
- Nododd y Cynghorydd Steven Hunt (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) ei fod yn gefnogol iawn i'r gwaith hwn. Ychwanegodd fod ganddo bryderon mewn perthynas â'r cyd-bwyllgorau, yn enwedig o ran cyllid. Nododd y Cynghorydd Hunt hefyd sylwadau ynghylch Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r cyd-bwyllgorau, y berthynas rhyngddynt, sut mae swyddogion yn cefnogi a sut i sicrhau nad oes dyblygu.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd Cyngor Gwynedd) at argymhelliad 2 yn yr adroddiad drafft, a oedd yn nodi y dylai BGCau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu arweinyddiaeth leol ar gyfer alinio gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys archwilio llwybrau o'r partneriaethau un pwrpas â'r partneriaethau amlbwrpas. Dywedodd y Cynghorydd Siencyn ei fod yn ansicr a fyddai'r byrddau hynny yn y sefyllfa orau i wneud y gwaith hwnnw yn ymarferol. Ychwanegodd mai'r partneriaethau lleiaf effeithiol yn ei farn ef yw'r rhai sydd wedi eu creu ar sail

statudol, gan gynnwys Cyd-bwyllgorau, a dywedodd ei fod yn ategu sylwadau'r Cynghorydd Hunt.

- Dywedodd y Cynghorydd Darren Price (Arweinydd Cyngor Sir Gâr) ei fod, yn gyffredinol, yn croesawu'r argymhellion a'r dull o adolygu systemau yn lleol ac yn rhanbarthol. Nododd ei fod yn cytuno â'r pwynt ynghylch effeithiau cyllidebol y Cyd-bwyllgorau. I gloi, meddai'r Cynghorydd Price ei fod yn croesawu'r adroddiad drafft ac yn cytuno mewn egwyddor mai'r Cyngor Partneriaeth yw'r corff priodol i fod â chyfrifoldeb ar y cyd am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithio mewn partneriaeth ranbarthol ac i oruchwylio adolygiadau o'r dirwedd yn y dyfodol.

52. Diolchodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'r aelodau am eu sylwadau. Trodd at y penderfyniadau i'r Cyngor Partneriaeth eu gwneud a nodir yn y papur fel a ganlyn:

    - Ystyried a chytuno ar yr adroddiad terfynol drafft a'r argymhellion sydd ynddo.
    - Cytuno ar yr argymhelliad bod gan Gyngor Partneriaeth Cymru gyfrifoldeb ar y cyd am effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithio mewn partneriaeth ranbarthol a goruchwylio adolygiadau o dirwedd y bartneriaeth yn y dyfodol (Argymhelliad 1 yr adroddiad drafft).
    - Cytuno bod gweithgor o'r Cyngor Partneriaeth yn cael ei sefydlu i gyd-ddatblygu egwyddorion drafft ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ranbarthol (Argymhelliad 5 yr adroddiad drafft).
    - Enwebu cynrychiolwyr ar gyfer y gweithgor i gyd-ddatblygu egwyddorion cenedlaethol craidd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ranbarthol. Enwebiadau (gan gynnwys manylion cyswllt) i'w hanfon at yr ysgrifenyddiaeth.

53. Gofynnodd y Gweinidog a oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r pwyntiau hyn mewn egwyddor. Ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau.

54. Cyfeiriodd y Cynghorydd Llinos Medi Huws at y cais am enwebiadau i'r gweithgor i gyd-ddatblygu egwyddorion cenedlaethol craidd. Nododd y dylai'r gweithgor gynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o Gymru. Nododd y Gweinidog y gallai unrhyw sylwadau pellach ar yr adroddiad drafft, ac enwebiadau ar gyfer y gweithgor, gael eu hanfon at yr ysgrifenyddiaeth.

55. Cyn cau'r eitem, nododd y Gweinidog ei bod wedi cael sgyrsiau yn ddiweddar gyda chynghorau tref a chymuned ac iddynt nodi bod yr ymgysylltu â hwy wedi bod yn amrywiol. Codwyd BGCau fel achos penodol lle nad oedd yr ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned cystal ag y gallai fod, ac roedd hon yn neges glir yng nghynhadledd Un Llais Cymru roedd y Gweinidog wedi ei mynychu yr wythnos flaenorol. Nododd y Gweinidog y byddai'n codi hyn yn uniongyrchol gyda chadeiriau BGC.

**Cam Gweithredu 2:** Aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru i anfon y canlynol at yr ysgrifenyddiaeth:-

- sylwadau ar yr adroddiad drafft '*Cadw gwaith partneriaeth ranbarthol dan adolygiad gyda phartneriaid lleol*', ac

- enwebiadau ar gyfer y gweithgor i gyd-ddatblygu egwyddorion cenedlaethol craidd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ranbarthol.

## Sylwadau i gloi

56. Diolchodd y Gweinidog i'r holl aelodau am eu mewnbwn i'r trafodaethau, a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Tachwedd.